## CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 2

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS**

Prif Weinidog Cymru

03 Gorffennaf 2020

Annwyl Brif Weinidog

**Gofal plant i weithwyr allweddol yn ystod gwyliau'r haf**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnal ymchwiliad i effaith y pandemig COVID-19, a sut gaiff ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

O'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed fel rhan o'n hymchwiliad, rydym yn bryderus nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddarpariaeth gofal plant penodol ar gael ar gyfer gweithwyr allweddol sydd â phlant oedran ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r gweithwyr hyn wedi chwarae rhan hanfodol yn ein hymateb i'r pandemig, ac mae'r rôl honno'n parhau yn naturiol yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a fydd, yn ogystal â chyfrannu at yr ymateb i Covid-19, yn hanfodol wrth ailgychwyn y gwasanaethau a ddaeth i ben dros dro yn ystod y pandemig.

Rydym yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo â'r mater hwn trwy sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i roi trefniadau ar waith. Rydym yn cydnabod ymateb rhagorol staff ysgolion trwy gydol y pandemig ac, er nad ydym yn credu y dylai'r staff hyn fod yn gyfrifol am y gofal plant ychwanegol hwn, efallai y gellir defnyddio adeiladau ysgolion at y diben hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y mater hwn, a darparu manylion i ni ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565